OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 595 (Cy. 71)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru, a sefydlwyd o dan erthygl 3 o Orchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Nid oes unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi mewn perthynas â'r offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw gost i fusnesau na'r sector gwirfoddol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 595 (Cy. 71)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014

*Gwnaed* *12 Mawrth 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *13 Mawrth 2014*

*Yn dod i rym* *15 Ebrill 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 8 a 9 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014 a daw i rym ar 15 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “Gorchymyn 2009” (“*the 2009 Order*”) yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**3**)

(**1**) 2006 p.5.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2009/2816 (Cy.243), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2009/2915 (Cy.255).

**Diddymu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru**

**3.**—(1) Mae Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru a sefydlwyd o dan erthygl 3 o Orchymyn 2009, wedi ei ddiddymu; a

(2) mae Gorchymyn 2009 drwy hyn wedi ei ddirymu.

*Edwina Hart*

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2014